# Ysgol newydd yng Nghricieth

## Cynnig i newid capasiti Ysgol Treferthyr Cricieth i 150 a symud yr ysgol i leoliad newydd ar gyfer Medi 2023.

Ymgynghoriad Statudol – Fersiwn Disgyblion Oedran Cynradd. 6 Tachwedd – 18 Rhagfyr 2020.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cynyddu nifer o blant fyddai'n mynd i Ysgol Treferthyr ac adeiladu ysgol newydd sbon yng Nghricieth.

Y rheswm am hyn yw fod cyflwr Ysgol Treferthyr yn wael ac mae angen adeiladu ysgol newydd i blant Cricieth.

Rydym eisiau gwybod sut ydych chi'n teimlo am hyn. Beth yw eich barn chi am gael ysgol newydd?

Mae'r ddogfen yma yn dweud wrthych chi beth sy'n digwydd nesaf.

# Pam adeiladu ysgol newydd?



Mae cyflwr yr ysgol bresennol yn wael ac nid oes modd gwneud gwelliannau iddi.

Mae arian wedi dod gan Lywodraeth Cymru er mwyn adeiladu ysgol newydd.

# Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Y cewch ysgol newydd gydag offer newydd modern a mwy o le y tu allan i chwarae.

Bydd yr ysgol yn symud i safle newydd yn nhref Cricieth.

Gall eich ysgol newydd edrych fel hyn...


YSGOL
BRO LLIFON









Dyma leoliad yr ysgol newydd

Dyma ble mae'r ysgol ar hyn o bryd




Ffynhonnell: *Google maps*

# Sut ydych chi'n teimlo am hyn?



# Camau nesaf

Cyfnod Ymgynghori Statudol o 6 Tachwedd hyd 18 Rhagfyr 2020.

Cabinet – Adrodd yn ôl gyda unrhyw sylwadau.

Os yw'r Cabinet am fwrw ymlaen bydd cyfnod gwrthwynebu yn dechrau am 28 diwrnod.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol.

# Dweud eich dweud

Mae croeso i chi gwblhau holiadur neu anfon sylwadau at y Cyngor

Mae'r Cyngor angen derbyn eich sylwadau erbyn 18 Rhagfyr 2020

**Angen mwy o wybodaeth?**

- Am fwy o wybodaeth, copi o'r holiadur, a'r ddogfen ymgynghori, ewch ar safle wê'r Cyngor, sef: www.gwynedd.llyw.cymru/morderneiddioaddysg
- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio: ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru
- Gallwch gyflwyno llythyr/sylwadau/holiadur i'r athro yn yr ysgol.